

CYLCH GORCHWYL BWRDD COMISIYNU RHANBARTHOL GOGLEDD CYMRU



Pwrpas

Bydd Bwrdd Comisiynu Rhanbarthol Gogledd Cymru yn cefnogi ac yn ategu datblygiad ac arferion comisiynu strategol ar draws y Gwasanaethau Cymdeithasol ac Iechyd o fewn gwasanaethau Oedolion a Phlant Gogledd Cymru, gan adnabod arferion gorau a darparu ymagwedd strategol gyson ar draws y rhanbarth.

Cyd-destun

Mae cyfrifoldeb ar yr Awdurdodau Lleol a'r Bwrdd Iechyd yng Ngogledd Cymru i sicrhau eu bod wedi gwneud trefniadau i alluogi proses effeithiol o gomisiynu gwasanaethau'n strategol er mwyn cyflawni eu cyfrifoldebau statudol. Mae angen i'r gofyniad hwn roi ystyriaeth i ddeddfwriaeth sydd ar ddod megis Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 ac unrhyw ddeddfwriaeth arall sydd mewn grym, neu a fydd yn dod i rym mewn perthynas â chomisiynu gwasanaethau'n strategol.

Mae'r Awdurdodau Lleol a'r Bwrdd Iechyd yng Ngogledd Cymru wedi bod yn rhagweithiol o ran datblygu dull rhanbarthol ar gyfer agweddau ar weithgareddau comisiynu a chaffael hyd yma. Cynhaliwyd adolygiad o gomisiynu ynghyd ag argymhellion ac opsiynau i ganfod potensial ar gyfer dull rhanbarthol ffurfiol pellach o gomisiynu. Mae'r partneriaid wedi cytuno bod angen swyddogaeth gomisiynu ranbarthol strategol ar draws Gogledd Cymru.

Canolbwynt ac Ymgysylltiad

CYLCH GORCHWYL
BWRDD COMISIYNU RHANBARTHOL GOGLEDD CYMRU

Canolbwynt y Bwrdd Comisiynu Rhanbarthol fydd goruchwyllo comisiynu strategol ar y cyd ar draws gwasanaethau Oedolion a Phlant yng Ngogledd Cymru ar gyfer gwasanaethau gofal cymdeithasol ac iechyd, a hyrwyddo proses gomisiynu a chaffael integredig neu gydweithredol lle bo manteision i hynny. Bydd y Bwrdd yn rhoi sicrwydd a chyfarwyddyd i bartneriaid o fewn cyd-destun rhanbarthol a chenedlaethol, gan sicrhau fod comisiynu gwasanaethau yng Ngogledd Cymru yn seiliedig ar arferion gorau, sicrhau gwerth am arian a gwasanaethau o ansawdd sy'n gynaliadwy. Bydd y Bwrdd yn ymgysylltu gyda phartneriaid allweddol gan gynnwys awdurdodau lleol, comisiynwyr iechyd a swyddogion caffael, darparwyr annibynnol a'r trydydd sector er mwyn:

- i) Adnabod meysydd ble mae angen dulliau comisiynu strategol integredig neu ranbarthol
- ii) Defnyddio gwybodaeth leol ac arferion wedi'u seilio ar dystiolaeth (ar draws Cymru, y DU a thu hwnt) i edrych ar ymagwedd/au rhanbarthol ac/neu isranbarthol tuag at lunio'r farchnad a datblygu gwasanaethau
- iii) Cael trosolwg strategol o ansawdd y gwasanaeth a ddarperir (comisiynu strategol) ac o'r amrywiol fodelau darparu gwasanaeth a'u heffaith e.e. darpariaeth fewnol/allanol
- iv) Cefnogi datblygiad sgiliau a gwybodaeth swyddogion comisiynu, contractio a chaffael
- v) Cael trosolwg strategol

Diffiniad/au o gomisiynu strategol

“Mae comisiynu yn set o weithgareddau a ddefnyddir i gynllunio a threfnu gwasanaethau er mwyn cyrraedd y deilliannau y mae eu dinasyddion eu hangen yn y ffordd orau. Mae'n golygu deall anghenion y boblogaeth, arferion gorau ac adnoddau lleol a defnyddio'r rhain i gynllunio, gweithredu ac adolygu newidiadau mewn gwasanaethau. Mae'n galw am safbwynt system gyfan ac yn gymwys i wasanaethau a ddarperir gan Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd yn ogystal â gwasanaethau cyhoeddus, preifat a'r trydydd sector.

(Addaswyd o Bywydau Bodlon, Cymunedau Cefnogol, adran 7 Canllawiau Comisiynu:

http://ipc.brookes.ac.uk/publications/pdf/Commissioning_framework_guidance_and_good_practice.pdf

CYLCH GORCHWYL
BWRDD COMISIYNU RHANBARTHOL GOGLEDD CYMRU

“Mae comisiynu integredig yn dod â strategaethau, cynlluniau a phrosesau ynghyd ar draws iechyd a gofal cymdeithasol er mwyn integreiddio deilliannau, adnoddau, systemau ac arferion er budd cleifion, gofalwyr, defnyddwyr a dinasyddion. Mae’n galw am gydamseru prosesau cynllunio ac ymgynghori, yn rhoi sylw dyledus i wahaniaethau o ran llywodraethu ac atebolrwydd ac wedi’i seilio ar werthfawrogiad llawn o’r cyfraniad y gall gwahanol bartneriaid ei wneud at ddeilliannau cadarnhaol.

Gall comisiynu integredig ddod â manteision i’r system iechyd a gofal heb integreiddio darpariaeth gwasanaethau – er y gall integreiddio darpariaeth, lle bo’n briodol, ddod â manteision ychwanegol i brofiad y cleifion ac ymyriadau mwy effeithiol.”

(Fel y cytunwyd yn Adroddiad ‘Strengthening the Connections – a framework for integrated commissioning in North Wales’ gan Red Quadrant).

Rôl y Bwrdd Comisiynu Rhanbarthol

Mae Cyfarwyddwyr y Gwasanaethau Cymdeithasol a’r Bwrdd Iechyd a’r partneriaid yn rhoi awdurdod i’r Bwrdd ddatblygu a chydgyssylltu'r gwaith o ddarparu rhaglen waith ranbarthol a gefnogir yn effeithiol mewn perthynas â chomisiynu strategol.

Bydd y Bwrdd yn casglu ac yn rhannu gwybodaeth am arferion da ar draws y rhanbarth.

Bydd y Bwrdd Comisiynu’n darparu/enwebu adnoddau priodol (arian ac/neu bobl) i gyflawni’r rhaglen waith y cytunwyd arni ac unrhyw grwpiau tasg a gorchwyl penodedig a sefydlwyd i gyflenwi’r rhaglen ranbarthol.

Rôl y Bwrdd Comisiynu fydd sicrhau bod ffrydiau gwaith grwpiau budd-ddeiliad perthnasol yn cael eu cysylltu, ac yn cyd-fynd â chynllun gwaith y Bwrdd Comisiynu, ac nad ydynt yn dyblygu ei gynllun gwaith.

Rôl y Bwrdd Comisiynu a’i aelodau fydd darparu gwybodaeth am gynnydd i grwpiau budd-ddeiliad cysylltiedig eraill.

CYLCH GORCHWYL
BWRDD COMISIYNU RHANBARTHOL GOGLEDD CYMRU

Llywodraethu

Bydd gan y Bwrdd Gadeiryddion Iechyd ac Awdurdod Lleol ar y cyd ac fe'i cefnogir gan Reolwr Busnes Rhanbarthol pwrpasol a Phennaeth Cydweithrediad Rhanbarthol Cydweithredfa Gwella Gwasanaethau Gofal a Llesiant Gogledd Cymru.

Bydd y Bwrdd yn adrodd i Grŵp Arweinyddiaeth Gogledd Cymru drwy'r Cyfarwyddwyr Arweiniol a'r Cadeiryddion ac yn darparu diweddariadau i'r Fforwm Partneriaeth.

Bydd Aelodau'r Bwrdd yn dal i fod yn atebol i'w sefydliadau priodol.

Bydd Aelodau'n sicrhau y rhennir gwybodaeth a chysylltiadau ar draws y ffrydiau gwaith rhanbarthol, h.y. diogelu, integreiddio, gwella a'r gweithlu.

Bydd y Cadeiryddion, y Pennaeth Cydweithrediad Rhanbarthol a'r Rheolwr Busnes Rhanbarthol yn cysylltu â'r Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol fel aelodau o'r Bwrdd hwnnw.

Bydd cynrychiolwyr y partneriaid yn sicrhau y sefydlir gwybodaeth a chysylltiadau o fewn y byrddau rhaglenni perthnasol.

Bydd aelodau'r Bwrdd Comisiynu'n adrodd i'r grwpiau/sefydliadau y maent yn eu cynrychioli.

Aelodaeth

Cyfarwyddwr Arweiniol NWSSIC (cyd Gadeirydd), Cyfarwyddwr Ardal Arweiniol BIPBC (cyd Gadeirydd)

Cyfarwyddwr/Pennaeth Gwasanaethau/Arweinydd Comisiynu Strategol 6 Awdurdod Lleol Gogledd Cymru (caniateir dirprwy wedi'i baratoi'n llawn), sy'n sicrhau cynrychiolaeth addas ar draws y gwasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc ac oedolion o bob oed.

Cyfarwyddwyr Ardal, Arweinydd Gweithredol CIC, Cyfarwyddwr Cyswllt Contractio a 2 o Benaethiaid Gwasanaeth BIPBC.

Uwch-gynrychiolydd enwebedig Iechyd Cyhoeddus Cymru

Pennaeth Cydweithrediad Rhanbarthol a Rheolwr Busnes Rhanbarthol, Comisiynu

Cynrychiolwyr budd-ddeiliad allweddol ychwanegol i'w cytuno yn ôl y gofyn neu i'w gwahodd i drafodaethau penodol, e.e. Tai, Cyllid, Addysg a Chyfreithiol

**CYLCH GORCHWYL
BWRDD COMISIYNU RHANBARTHOL GOGLEDD CYMRU**

Cworwm

Er mwyn gallu cynnal cyfarfodydd a gwneud penderfyniadau, rhaid i o leiaf 4 o bartneriaid gael eu cynrychioli (ar draws y 7 sefydliad)

Amllder y cyfarfodydd

Cynhelir y cyfarfodydd bob dau fis.

Is-grwpiau/ Grwpiau Tasg a Gorffen

Pan fydd is-grwpiau neu grwpiau Tasg a Gorffen yn cael eu sefydlu i ymgymryd â phrosiectau penodol ar y rhaglen waith, caiff y rhain eu hwyluso gan y Rheolwr Busnes Rhanbarthol ar y cyd ag arweinwyr dynodedig y sefydliadau partner.

Bydd y Rheolwr Busnes Rhanbarthol ac/neu Gadeirydd y grwpiau hyn yn adrodd i'r Bwrdd.

Delio â Materion Sensitif a Gwrthdaro Buddiannau Posibl

Efallai y bydd rhaid i'r Bwrdd Comisiynu Rhanbarthol ystyried gyfrinachol ar faterion sy'n ymwneud a chomisiynu strategol ar adegau. Gofynnir i aelodau unigol ddatgan unrhyw wrthdaro buddiannau y maent yn ymwybodol ohono cyn cychwyn y cyfarfod. Bydd y Bwrdd yn penderfynu a fydd angen eithrio'r aelod hwnnw o unrhyw drafodaethau/benderfyniadau ar faterion penodol oherwydd y datganiad hwnnw.

Adolygu

Bydd angen gwerthuso effeithiolrwydd y Bwrdd Comisiynu Rhanbarthol ac addasu unrhyw drefniadau yn ôl yr angen.

Caiff y Cylch Gorchwyl ei adolygu bob blwyddyn a gellir ei addasu hefyd ar adegau eraill os bydd angen.

Bydd newidiadau arfaethedig yn cael eu cytuno yng nghyfarfodydd y Bwrdd.

**CYLCH GORCHWYL
BWRDD COMISIYNU RHANBARTHOL GOGLEDD CYMRU**

Is-grwpiau'r Bwrdd Comisiynu Rhanbarthol a'r strwythur adrodd ar gyfer cyflawni'r Rhaglen Waith.

